



Cynhwysiant, anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth dysgu ychwanegol

Canllawiau ar gyfer ysgolion prif ffrwd ar y disgwyliadau ar gyfer y Cod ADY

Medi 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	t 3
Beth yw diben y canllawiau hyn?	t 3
Beth mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ef?	t 4
Cynhwysiant	t 5
Addysg gynhwysol	t 6
Creu ysgolion cynhwysol drwy ddylunio	t 7
Deddfwriaeth ategol i sicrhau ymarfer ac addysgeg gynhwysol	t 7
Yr amgylchedd ddysgu	t 7
Yr ystafell ddosbarth gynhwysol awyr agored	t 8
Yr ystafell ddosbarth gynhwysol	t 9
Ymarferwyr effeithiol	t 11
Gwahaniaethu fel rhan o addysgu arferol	t 11
Ymyriadau wedi'u targedu fel rhan o addysgu arferol	t 12
Anghenion Dysgu Ychwanegol	t 13
Adnabod ADY	t 14
Cynlluniau datblygu unigol	t 15
Arfer sy'n canolbwyntio ar y person	t 17
A oes angen dulliau addysgol arbenigol neu wahanol ar ddysgwyr ag ADY?	t 17
A yw diagnosis o unrhyw fath yn bwysig i amlygu dulliau addysgegol o gynorthwyo dysgwyr?	t 18
Meysydd angen eang	t 20
Amlygu rhwystrau rhag dysgu	t 21
Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol	t 22
Pa DdY y gellid disgwyl yn rhesymol iddi fod ar gael mewn ysgol prif ffrwd?	t 23
Lle mae dysgwyr yn cael anhawster sylweddol mewn dysgu a / neu anabledd, byddai'r ystod ganlynol o ALP yn cael ei hystyried yn rhesymol i ysgolion prif ffrwd ei darparu	t 24
Cynorthwyo dysgwyr y mae arnynt angen darpariaeth fwy cymhleth i fodloni eu hanghenion mewn ysgolion prif ffrwd	t 27

Cyflwyniad

Yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio o'r newydd ar sicrhau llwyddiant pob dysgwr, a dechreuodd raglen weddnewid gynhwysfawr sy'n cael ei chyfleu yn y ddogfen [Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017-2021](#). Er mwyn cyflawni'r weledigaeth genedlaethol, cydnabyddir bod angen creu ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth a lles lle mae pob dysgwr yn bwysig, ac yn gydradd bwysig.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018) Cymru yn rhan o'r rhaglen weddnewid hon. Mae'n darparu fframwaith statudol newydd i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae Cod gorfodol yn cyd-fynd ag ef sy'n sicrhau bod gan y system newydd gyfres glir o bamedrau y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol y mae'n rhaid i ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i ddysgwyr ag ADY weithredu yn unol â nhw. Mae nod yr ymagwedd newydd, fel yr amlinellir yn y Cod, fel a ganlyn ¹:

Cefnogi'r broses o greu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n diwallu ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau

Mae'r fframwaith statudol newydd wedi'i seilio ar y 5 egwyddor ganlynol:

- 1. Ymagwedd wedi'i seilio ar hawliau**, sy'n golygu bod safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r dysgwr a'u rhieni/gofalwyr y plentyn neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cymorth a'u galluogi i gymryd rhan mor llawn â phosibl yn y prosesau penderfynu a bod ganddo hawl i herio penderfyniadau am ADY, darpariaeth dysgu ychwanegol.
- 2. Adnabod yn gynnar, ymyrraeth a chynllunio'n effeithiol ar gyfer pontio**, sy'n golygu bod anghenion yn cael eu hamlygu a darpariaeth yn cael ei threfnu ar y cyfle cynharaf a, lle bo'n hynny'n addas, bod ymyriadau posibl yn cael eu rhoi ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu.
- 3. Cydweithio**, sy'n golygu bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod cymorth wedi'i gydlynw'n briodol yn cael ei roi ar waith i alluogi dysgwyr i gyflawni disgwyliadau, profiadau a deilliannau cadarnhaol.
- 4. Addysg gynhwysol** sy'n cefnogi cyfranogiad llawn mewn addysg prif ffrwd lle bynnag y bo'n ymarferol, ac ymagwedd lleoliad cyfan at fodloni anghenion dysgwyr ag ADY.
- 5. System ddwyieithog** lle y cymerir pob cam rhesymol i gynnig darpariaeth dysgu ychwanegol yn Gymraeg.

Beth yw diben y canllawiau hyn?

O dan y system ADY newydd, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu'r trefniadau a wnaed gan ysgolion i fodloni anghenion dysgwyr ag ADY. Felly, diben y canllawiau hyn yw:

¹Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol <https://llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol>

- egluro'r hyn y bydd angen i bob awdurdod lleol ei adolygu; ac
- egluro'r hyn a ddisgwylir gan ysgolion prif ffrwd wrth fodloni anghenion dysgwyr ag ADY.

Diben yr adolygiad gan awdurdodau lleol yw sefydlu p'un a yw'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ar gael i ddysgwyr yn yr awdurdod lleol yn ddigonol i fodloni anghenion cyffredinol ei boblogaeth o ddysgwyr ag ADY ai peidio. Felly, disgwylir i awdurdod lleol allu barnu i ba raddau y mae'r canlynol ar gael mewn ysgolion a gynhelir yn ei ardal:

- addysgu o ansawdd uchel, wedi'i wahaniaethu, ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- ymyrraeth a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer dysgwyr ag ADY;
- systemau effeithiol ar gyfer monitro cynnydd a chyflawniad dysgwyr ag ADY a'u cynnwys ym mywyd pob dydd yr ysgol;
- trefniadau ar gyfer cynnwys arbenigwyr mewn achosion, lle y bo hynny'n briodol;
- trefniadau ar gyfer adolygu effeithiolrwydd ymyriadau a ddefnyddir i gynorthwyo dysgwyr ag ADY a sgiliau ac arbenigedd staff;
- trefniadau ar gyfer cynnwys dysgwyr a rhieni ar bob cam.

Er mwyn cael darlun clir o gapasiti ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag ADY, byddai'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â'r consortiwm rhanbarthol a'i randdeiliaid ehangach, yn gweithio gydag ysgolion i goladu tystiolaeth, gan ei alluogi i benderfynu a yw'r trefniadau lleol yn ddigonol.

Beth mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ag ef?

Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) a dilyn ei hegwyddor sylfaenol o addysg gynhwysol, dylai pob ysgol ddisgwyl cymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth i fodloni anghenion dysgwyr ag ADY. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r hyn y byddai'n rhesymol ei ddisgwyl mewn ysgolion prif ffrwd ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae wedi'i rhannu'n dri adran, fel a ganlyn:

- 1. Cynhwysiant** – creu amgylcheddau dysgu cynhwysol a defnyddio addysgeg cynhwysol i fodloni anghenion amrywiol pob dysgwr. Bydd yr adran hon yn ddefnyddiol i ymarferwyr, cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (ALNCos) ac uwch arweinwyr. Bydd hyn o ddiddordeb i gydlynwyr ADY, yn enwedig gan mai eu cyfrifoldeb nhw fydd gweithio gydag uwch arweinwyr i sefydlu arferion yn y lle cyntaf, sy'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i fynd i'r afael â'r ddyletswydd gyffredinol o atal datblygu neu ddwysáu anghenion dysgu ychwanegol.
- 2. Anghenion Dysgu Ychwanegol** – amlygu rhwystrau rhag dysgu a phennu ADY yn gywir. Bydd yr adran hon yn ddefnyddiol i Gydlynwyr ADY ac uwch arweinwyr sy'n darparu manylion ar gyfer y ddyletswydd statudol ar gyfer nodi ADY a strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yn arbennig o berthnasol i Gydlynwyr Anghenion Arbennig gan mai eu cyfrifoldeb nhw fydd cefnogi uwch arweinwyr i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd.
- 3. Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol** – y safonau gofynnol ar gyfer darparu cymorth sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael yn gyffredinol neu'n wahanol iddo mewn ysgolion prif ffrwd. Bydd yr adran hon o ddiddordeb i uwch arweinwyr a Chydlynwyr ADY gan ei fod yn darparu gwybodaeth ar ddyletswydd statudol o sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd yn arbennig o berthnasol i Gydlynwyr ADY gan mai eu cyfrifoldeb nhw fydd sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cwrdd ag anghenion pob dysgwr sydd ag ADY yn yr ysgol.

Cynhwysiant



Bydd yr adran hon yn ddefnyddiol i ymarferwyr, cydlynwyr ADY ac uwch arweinwyr. Bydd o ddiddordeb arbennig i gydlynwyr ADY gan mai eu cyfrifoldeb nhw fydd gweithio gydag uwch arweinwyr i sefydlu arferion, sy'n sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i fynd i'r afael â darpariaeth o ansawdd uchel i fynd i'r afael â'r dyletswydd cyffredinol o atal datblygiad neu waethygiad yr anghenion dysgu ychwanegol.


Addysg gynhwysol

Mae addysg gynhwysol yn gyfuniad o arferion ac addysgeg cynhwysol sy'n cefnogi pob dysgwr yn deg beth bynnag fo'u hoedran, rhywedd, ethnigrwydd, cyrhaeddiad, anhawster dysgu, anabledd, iaith a chefnidir. Mae'n sicrhau bod sylw penodol yn cael ei roi i'r ddarpariaeth a drefnir ar gyfer unigolion a gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn yr ysgol, a'u cyflawniad. Mewn ysgolion cwbl gynhwysol, mae pob plentyn a pherson ifanc yn ymgysylltu ac yn cyflawni trwy fod yn bresennol, cymryd rhan a dysgu.

Mae ysgolion sy'n gynhwysol yn llwyddiannus yn effeithiol ac yn amddiffyn pob dysgwr sy'n llwyddo i annog cyfranogiad gan ddysgwyr eu hunain yn ogystal â chan eu teuluoedd a'u cymunedau. Mae ysgolion o'r fath yn creu cyfleoedd am ystod o arferion gwaith a chefnogaeth i unigolion neu grwpiau o ddysgwyr i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei eithrio o gwmni aeth a chymryd rhan yn yr ysgol. O ganlyniad, mae ysgol gynhwysol yn debygol o edrych yn wahanol bob dydd wrth iddi newid yn barhaus i ddiwallu anghenion dysgwyr. Fodd bynnag, yr hyn nad yw'n newid yw'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i addysg gynhwysol. Mae arfer cynaliadwy ysgol gyfan yn dibynnu ar ddeall yr egwyddorion sy'n sail i gynhwysiant. Mae'r [International Bureau of Education \(IBE\)](#) ² yn nodi bod llwyddiant yn dibynnu ar ddeall bod cynhwysiant yn:

- broses ddi-ddiwedd ynglŷn â dysgu byw gyda gwahaniaeth a dysgu sut i ddysgu o wahaniaeth;
- yn ymwneud â nodi a symud rhwystrau a gall y rhwystrau hyn fod ar wahanol ffurfiau; mae rhai ohonynt yn ymwneud â'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu trefnu, y ffurfiau addysgu a ddarperir a'r ffordd y mae cynnydd dysgwyr yn cael ei werthuso;
- am bresenoldeb, cyfranogiad a chyflawniad yr holl ddysgwyr lle maent yn yr ysgol, yn cael profiadau dysgu o safon sy'n sicrhau dysgu ystyrlon ar draws y cwricwlwm cyfan;
- canolbwyntio ar grwpiau o ddysgwyr a allai fod mewn perygl o ymleiddio, gwahardd neu dangyflawni.

Trwy sicrhau mynediad i bob agwedd ar y cwricwlwm, trwy ddarpariaeth o ansawdd uchel ond arferol, yn ogystal â mynediad i amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol, mae'n bosibl rhagweld a mynd i'r afael â rhwystrau posibl i ddysgu. Dylai arfer cadarn o'r fath leihau'r angen am adferiad neu ymyrraeth ychwanegol yn nes ymlaen i nifer o ddysgwyr. **Felly mae ysgol gynhwysol llwyddiannus yn gynnwys dylunio cynhwysol wedi'i gyfuno â rheoli, gweithredu a chynnal a chadw, a staff cadarnhaol sydd wedi'u hyfforddi'n dda.**



Ffynhonnell y llun uchod <https://www.facebook.com/askinclusion/>

² UNESCO-IBE (2016). Reaching out to all learners: A resource pack for supporting inclusive education. Geneva: UNESCO-IBE. Ar gael yn: <http://unesdoc.unesco.org/images/0024/002432/243279e.pdf>

Creu ysgolion cynhwysol drwy ddylunio

Nid oes angen sgiliau na gwybodaeth arbenigol ar ymarferwyr prif ffrwd i gynllunio ar gyfer addysg gynhwysol a'i darparu. Fodd bynnag, nid yw'n digwydd ar ddamwain. Fel rhan o'r diwygiadau cenedlaethol hyn mae'r [cwricwlwm i Gymru yn newid](#) ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud datganiad clir ynghylch yr hyn sy'n bwysig wrth gyflenwi addysg eang a chytbwys i bob dysgwr. Yn ogystal, un o egwyddorion y Cod yw'r disgwyliad bod darpariaeth o ansawdd uchel yn cael ei sicrhau er mwyn atal datblygu neu ddwysáu anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, bydd y Cydlynnydd ADY yn chwarae rhan allweddol wrth weithio gydag uwch arweinwyr i sicrhau bod cynllunio cwricwlwm yn ceisio lliniaru rhwystrau i ddysgu yn benodol. Bydd gan y Cydlynnydd ADY rôl ganolog i chwarae gydag uwch arweinwyr i sicrhau bod cwricwlwm yr ysgol ac asesu yn atal rhwystrau dysgu. Drwy ystyried anghenion dysgu pawb ar y cychwyn, dylai osgoi'r angen i orfod addasu'r addysgu nes ymlaen ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr.

Mae'r dull rhanbarthol, a amlinellir yn [Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth](#) yn hyrwyddo ac yn cefnogi gwella ysgolion ac arweinyddiaeth ddysgu sy'n gynaliadwy er mwyn i ysgolion wneud dewisiadau gwybodus ynghylch cynhwysiant a thegwch. Mae'n cefnogi arweinwyr ysgolion i hunanarfarnu cadarn gyda ffocws penodol ar ansawdd y ddarpariaeth a'r arferion ar gyfer cynhwysiant ac addysgu, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar les a chanlyniadau pob dysgwr. I gefnogi'r broses hon ymhellach, mae gan bob ysgol fynediad at dimau cynhwysiant arbenigol awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, fel gweithwyr proffesiynol iechyd y GIG, i gael arweiniad ychwanegol ar greu lleoliadau cynhwysol.

Deddfwriaeth ategol i sicrhau ymarfer ac addysgeg gynhwysol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn mynnu bod ysgolion yn gwneud addasiadau rhesymol ac yn cymryd camau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr anabl a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig er mwyn sicrhau mynediad cyfartal at ddarpariaeth addysg. Mae'n mynd ymhellach na'r addysg ffurfiol a ddarperir gan ymdrin â phob math o weithgareddau ysgolion, fel gweithgareddau allgyrsiol a hamdden, clybiau ar ôl ysgol a gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a thripiâu ysgol, yn ogystal â chyfleusterau ysgolion fel llyfrgelloedd a chyfleusterau TG. Mae'r ddyletswydd addasiadau rhesymol yn un rhagweledol a pharhaus sy'n ddyledus i ddisgyblion anabl yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu na ddylai ysgol aros hyd nes bod disgyblion anabl ar ei chofrestr i wneud yr addasiadau angenrheidiol, ac y dylai gynllunio o flaen llaw trwy'r Cynllun Cydraddoldebau Strategol gorfodol. Disgwylir i ysgolion gymryd camau i fynd i'r afael ag anfantais benodol, anghenion gwahanol neu gyfranogiad anghymesur o isel grwpiau penodol o ddisgyblion, a elwir yn ddarpariaethau camau gweithredu cadarnhaol, a chyhoeddi ei bwriadau trwy ei Chynllun Hygyrchedd. Argymhellir bod ysgolion yn ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid priodol, gan gynnwys arbenigwyr yn yr awdurdod lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol y GIG, i greu'r [Cynllun Hygyrchedd](#)


Yr amgylchedd ddysgu

Wrth greu amgylchedd gynhwysol, byddai'r Cydlynnydd ADY yn gweithio gydag uwch arweinwyr i ystyried y canlynol:


- trefniadaeth yr amgylchedd ystafell ddosbarth;
- penderfynu ar dechnegau rheoli syml;
- sefydlu cyfres sylfaenol o weithdrefnau gweithredu safonol; a
- sicrhau bod yr holl aelodau staff wedi'u hyfforddi'n addas ac yn hyrwyddo dulliau cynhwysol effeithiol yn gadarnhaol.

Mae'r cyntaf o'r rhain yn ystyried ffactorau amgylcheddol fel a ganlyn:

Yr ystafell ddosbarth gynhwysol awyr agored



Yr ystafell ddosbarth gynhwysol



Ar ôl trefnu'r ystafell ddosbarth yn llwyddiannus, y cam nesaf fyddai cytuno ar ddisgwyliadau rheoli syml:

Rheoli'r amgylchedd dysgu

1	Mae rheolau a disgwyliadau'r ystafell ddosbarth yn cael eu harddangos, eu haddysgu'n uniongyrchol, eu hymarfer a'u hatgyfnerthu'n gadarnhaol.
2	Mae arferion ystafell ddosbarth nodweddiadol, er enghraifft dechrau'r wers/casglu deunyddiau/gwaith grŵp/gwaith annibynnol/ceisio cymorth, yn cael eu haddysgu'n uniongyrchol, eu hymarfer a'u hatgyfnerthu'n gadarnhaol.
3	Mae gweithdrefnau pontio effeithlon, gan ddefnyddio ystod o ddulliau i gyfathrebu newid (iaith, arwyddion, seiniau), ar gyfer mynd i mewn i'r ystafell ddosbarth/newid gweithgareddau/gadael y wers ac ati... yn cael eu haddysgu, eu hymarfer a'u hatgyfnerthu'n gadarnhaol
4	Mae'r ystafell ddosbarth yn rhydd rhag rhwystrau, mae digon o le i'r holl ddysgwyr ac mae'r athro/athrawes yn gallu cyrraedd yr holl ddysgwyr
5	Mae'r trefniadau eistedd yn cael eu cynllunio (gan ystyried defnydd o'r llaw dde/llaw chwith, anghenion synhwyrdd neu gorfforol, grwpiau cyfeillgarwch neu gyfoedion)
6	Mae strategaethau rheoli swm yn cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau'r amodau gorau posibl ar gyfer cymryd rhan a dysgu
7	Mae deunyddiau, cyfarpar (gan gynnwys cyfarpar llaw dde a llaw chwith) a chyflenwadau ar gael yn rhwydd i'r dysgwyr – er enghraifft: mae'r testun a ddefnyddir mewn gwers yn briodol i ddiddordebau a lefelau gallu; prennau mesur darllen; troshaenau lliw; cymhorthion cyfathrebu; systemau gwirio emosiynol; teganau ffidlan; amseryddion gweledol; taflenni gwaith â thestun sy'n glir, yn drefnus ac wedi'i gyferbynnu'n dda; fersiynau bwrdd gwaith o fanciau geirfa allweddol a chymorth rhifedd, cyfrifiannell, llinellau rhif ac ati....

Mae hefyd angen creu cyfres o weithdrefnau cyffredinol ar gyfer yr ystafell ddosbarth/lleoliad a gymhwysir yn gyson bob amser ym mhob gwers.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol yr Ystafell Ddosbarth

1	Mae'r cyfarwyddiadau'n glir ac yn cael eu hatgyfnerthu'n weledol
2	Pan fydd cymorth ychwanegol gan oedolyn ar gael, mae hyn yn cael ei gynllunio a'i ddefnyddio i hybu annibyniaeth wrth ddysgu, gwarchod hunan-barch a chynyddu cynhwysiant dysgwyr yn eu grŵp cyfoedion
3	Mae strwythur ac amcanion y wers yn cael eu hegluro
4	Mae tasgau'n cael eu hesbonio a'u modelu a'u symleiddio, eu hymestyn neu eu newid i ddarparu ar gyfer pob dysgwr
5	Mae geirfa'r pwnc/y dasg yn cael ei haddysgu o flaen llaw a darperir cyfleoedd gor-ddysgu i'r dysgwyr hynny y mae arnynt eu hangen
6	Rhoddir help i ddysgwyr y mae arnynt angen cymorth neu adnoddau i gael at destun
7	Gwneir defnydd effeithiol o holi i herio dysgwyr ar bob lefel
8	Defnyddir asesu'n effeithiol i lywio camau nesaf dysgu yn y wers
9	Cynigir cyfleoedd amlsynhwyrdd yn lle gweithgareddau pin a phapur ar bob lefel, a defnyddir TGCh i gefnogi dewisiadau amgen yn lle cofnodi ysgrifenedig
10	Mae amrywiaeth o grwpiau dysgwyr yn cael eu defnyddio a'u sgaffaldio i sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'u cryfderau a'u sgiliau ei gilydd, ac yn gallu manteisio arnynt, gan roi amser a chyfle iddynt helpu ei gilydd
11	Mae amser yn cael ei neilltuo i sicrhau bod dysgwyr yn gallu prosesu gwybodaeth cyn disgwyl iddynt ymateb

Y mater olaf i'w ystyried yw sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n addas ac yn gallu hyrwyddo a chynnal amgylcheddau cynhwysol effeithiol mewn ffordd gadarnhaol. Bydd y Cydlynnydd ADY mewn sefyllfa dda i gefnogi uwch arweinwyr i sicrhau bod yr arferion a amlinellir uchod yn cael eu cymhwyso uchod neu, os bydd ysgol yn nodi'r angen i wella dulliau cynhwysol systemig i fynd i'r afael â'r amrywiaeth a gwella profiadau ystod eang o ddysgwyr a bod cymorth helaeth, trwy raglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr neu wedi'i theilwra, lle bo hynny'n briodol, ar gael gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid ehangach, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol iechyd y GIG.

Ymarferwyr effeithiol

Mae dibenion Cwricwlwm i Gymru yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer addysgu sy'n cynnwys pwysigrwydd lles y dysgwr. Felly, y man cychwyn i unrhyw athro/athrawes yw deall y gyd-ddibyniaeth rhwng lles a dysgu. Bydd athro/athrawes effeithiol yn sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, ei barchu a'i feithrin, bod ganddo ymdeimlad o berthyn a'i fod yn profi llwyddiant a chydabyddiaeth. Mae'r canllawiau cenedlaethol [Asesu a lles dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol](#) yn rhoi gwybodaeth bellach am rôl athrawon wrth hyrwyddo lles dysgwyr trwy arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd athro/athrawes effeithiol yn creu darpariaeth addysgol y gall pob dysgwr gael ati ym mhob gwers, bob amser, yn ddieithriad. Dyma'r arferion dydd i ddydd sy'n digwydd ym mhob ystafell ddosbarth i sicrhau cynnydd, ac mae'n sail i bob math o ddysgu. Fe'i disgrifir yn aml naill ai fel addysgu arferol, cyffredinol neu ansawdd uchel yn gyntaf. Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth yn debygol o fod o gymorth lle mae angen datblygu capasiti addysgu. Pan fydd darpariaeth arferol/cyffredinol/ansawdd uchel yn gyntaf yn gryf iawn, dylai hyn leihau'r angen am gamau adferol neu ymyriadau ychwanegol yn ddiweddarach i nifer o ddysgwyr. Mae cydweithrediad rhyngwladol diweddar wedi cynnal dadansoddiad beirniadol o nodweddion addysgu effeithiol, ac fe'i cyhoeddwyd fel [The Great Teaching Toolkit Evidence Review \(2020\)](#). Mae'n darparu manylion helaeth a chynhwysfawr am yr elfennau a'r ymagweddau i wella effeithiolrwydd athrawon wrth sicrhau bod pob dysgwr yn dysgu'n gyflymach, gan amlygu pedair blaenoriaeth ar gyfer gwneud hynny, fel a ganlyn:

- deall y cynnwys maen nhw'n eu haddysgu a sut mae'n cael ei ddysgu;
- creu amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu;
- rheoli'r ystafell ddosbarth mewn ffordd sy'n cynyddu'r cyfle i ddysgu i'r eithaf;
- cyflwyno cynnwys, gweithgareddau a rhyngweithiadau sy'n ysgogi eu myfyrwyr i feddwl.

Gwahaniaethu fel rhan o addysgu arferol

Mae gwahaniaethu'n gonglfaen darpariaeth dydd i ddydd yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n rhan o addysgu arferol a bydd y Cydlynnydd ADY mewn safle da i gefnogi uwch arweinwyr wrth hybu strategaethau a dulliau o leihau'r angen am gefnogaeth ychwanegol yn hwyrach. Mae ystyr eang i wahaniaethu oherwydd ei fod yn cynnwys unrhyw ffordd y mae addasiadau'n cael eu gwneud i gynnwys, cyflwyniad, amgylchedd neu ddisgwyliadau addysgu a dysgu. Gall fod yn rhywbeth a gynlluniwyd yn ofalus, er enghraifft gweithgaredd penodol, ond gall hefyd fod yn rhywbeth sy'n digwydd yn y fan a'r lle, fel ymateb dysgwr i addysgu. Gall gwahaniaethu ddigwydd ar sawl lefel. Gall fod yn gynnil ac yn rhad, er enghraifft aralleirio cwestiwn i'w wneud yn haws i ddysgwyr ei ddeall. Yn hollbwysig, mae athrawon effeithiol yn sicrhau bod gwahaniaethu'n barhaus ac yn treiddio trwy bob agwedd ar y wers, ac nad yw'n weithgaredd un tro fel defnyddio taflen waith wedi'i theilwra neu ddeunyddiau penodol. Dylai gwahaniaethu fod yn rhan annatod o bob gwers, ac yn enwedig felly i'r dysgwyr hynny sy'n cael eu ffrydio neu eu rhoi mewn grŵp yn ôl gallu, gan nad yw hyn, ynddo'i hun, yn gyfystyr â gwahaniaethu.

Ymyriadau wedi'u targedu fel rhan o addysgu arferol

Os nad yw'r dysgwr yn datblygu yn ôl y disgwyl, mae'n bosibl y bydd angen ymyriadau 'dal i fyny' wedi'u targedu i ategu addysgu gwahaniaethol i fynd i'r afael â meysydd datblygu penodol. Mae hyn yn elfen sylfaenol o addysgu ansawdd uchel, arferol. Bydd cyfuniad o addysgu ansawdd uchel gydag ymyriadau dal i fyny effeithiol, byr, am gyfnod penodol yn ddigon i'r rhan fwyaf o ddysgwyr i sicrhau eu bod yn datblygu yn unol â'u potensial. Bydd athro/athrawes effeithiol yn ystyried bod unrhyw blentyn sy'n cael trafferth yn 'nodweddiadol' hyd nes y profir fel arall. Lle mae angen cymorth ychwanegol i ddatblygu arfer ysgol, er enghraifft, ar adnabod ac ymyriadau cynnar i fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr sy'n dod i'r amlwg, mae'r CADY mewn sefyllfa dda i weithio gydag asiantaethau allanol fel yr ALL a'i bartneriaid ehangach, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol y GIG.

Dylai asesu gynorthwyo athrawon i nodi, casglu gwybodaeth a myfyrio ar gynnydd dysgwyr dros amser fel y'u mynegir yng [nghanllaw cenedlaethol Cwricwlwm i Gymru ar asesu](#). Dim ond pan fydd tystiolaeth asesu helaeth sy'n dangos nad yw plentyn wedi ymateb i'r strategaethau cyffredinol, grŵp targed neu unigol a'r cymorth sydd ar gael yn yr ystafell ddosbarth, y rhoddir ystyriaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd y gallai fod gan y plentyn rwystrau arwyddocaol rhag dysgu.



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r adran hon yn darparu manylion y broses ar gyfer nodi rhwystrau i ddysgu a phenderfynu ar ADY yn gywir. Bydd yn ddefnyddiol i uwch arweinwyr a CADYau ddarparu manylion am y dyletswyddau statudol newydd a'r strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi dysgwyr ag ADY. Bydd yn arbennig o berthnasol i CADYau gan mai eu cyfrifoldeb hwy fydd cefnogi uwch arweinwyr i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd.

Anghenion Dysgu Ychwanegol


Pan fydd cynnydd yn llai na'r disgwyl, mae'n bosibl na fydd addysgu o ansawdd uchel, gan gynnwys gwahaniaethu, ac ymyriadau arferol, safonol neu addasiadau rhesymol yn ddigonol i fodloni anghenion pob dysgwr. Mae'n bosibl y bydd dysgwyr o'r fath wedi cael eu hamlygu'n rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a bydd angen i'r ysgol gymryd rhai camau ychwanegol neu wahanol i sicrhau cynnydd.

Bydd gan y CADY ynghyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth ran hanfodol i'w chwarae wrth benderfynu a yw technegau a strategaethau effeithiol wedi'u defnyddio'n gyson i sicrhau cynnydd dysgwyr. Bydd penderfynu a oes gan blentyn ADY yn seiliedig ar asesiad o gynnydd dros amser, o ystod o ffynonellau. Lle mae gan ddysgwyr anabledd a nodwyd, at ddibenion y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd tystiolaeth asesu yn ymwneud ag a yw'r anabledd hwnnw'n atal neu'n rhwystro'r dysgwr rhag cyrchu unrhyw agwedd ar gwricwlwm yr ysgol. Bydd gan y CADY rôl ganolog wrth hwyluso deialog broffesiynol i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar gyfer dysgwyr unigol, gan gynnwys disgwyliadau o ran sut olwg fydd ar ddilyniant a pha mor gyflym y gall dysgwr symud ymlaen.

Adnabod ADY

Mae'r Cod ADY yn mynegi'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â phenderfynu a oes gan ddysgwr ADY ac mae **dogfen ganllaw ranbarthol (ANGEN LINC)** yn darparu manylion cynhwysfawr i ysgolion ar y prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer nodi ADY.

Wrth benderfynu a oes ADY gan ddysgwyr oedran ysgol gorfodol, mae'n rhaid defnyddio'r profion hyn:




Mae prawf ychydig yn wahanol i ddysgwyr o dan oedran ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgol neu feithrinfa brif ffrwd a gynhelir. Y prawf cyntaf o hyd yw a oes gan y plentyn anhawster dysgu neu anabledd, ond mae ystyr hynny ychydig yn wahanol. Lle mae'r dysgwr ar gyrraedd oedran ysgol gorfodol yn debygol o gael cryn dipyn yn fwy o anhawster dysgu, neu anabledd sy'n eu rhwystro rhag gwneud defnydd a fyddai ar gael yn gyffredinol i eraill o'r un oed, pe na bai darpariaeth dysgu ychwanegol yn cael ei gwneud. Os mai 'ydy' yw'r ateb i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, yna dylid cymhwyso'r ail brawf.

Cynlluniau datblygu unigol

O dan y system ADY newydd, ar gyfer unrhyw ddysgwr yr amlygwyd bod ganddo ADY, bydd angen i'r ysgol greu a chynnal Cynllun Datblygu Unigol (CDU) a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) angenrheidiol i fodloni'r angen asesedig yn cael ei sicrhau. Y CDU yw'r ddogfen sy'n cynnwys disgrifiad o'r ADY sy'n rhwystro'r dysgwr rhag cyflawni ei botensial addysgol a'r DDdY yw'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i oresgyn neu liniaru'r rhwystr hwn. Caiff ei chreu gyda'r dysgwr a rhieni/gofalwyr y dysgwr ar y cyd ag unrhyw weithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn ymwneud â hyn. Bwriedir iddi fod yn ddogfen ymarferol a ddefnyddir i lywio addysgu a dysgu, ac nid bod yn rhan o broses weinyddol yn unig. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd CDU yn cael ei gynnal gan yr ysgol. Fodd bynnag, ar gyfer nifer fach, lle mae cymhlethdod y ddarpariaeth ychwanegol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion dysgwyr yn afresymol disgwyl i leoliad prif ffrwd ei ddarparu, bydd y CDU yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol.

Er mwyn sicrhau bod y CDU yn parhau i adlewyrchu anghenion y dysgwr a manylion y ddarpariaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r anghenion hynny, mae gofyniad sylfaenol i CDUau gael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf ac iddynt gael eu hadolygu yn unol â hynny.

Gyda'r fantais o addysgu parhaus o ansawdd uchel ynghyd ag DDdY effeithiol, bydd llawer o ddysgwyr yn gallu arddangos cynnydd addas yn eu dysgu. Lle aethpwyd i'r afael â'r rhwystr gwreiddiol i ddysgu bydd angen i'r Cydlynedd ADY ystyried os yw'r dysgwr yn parhau i gael ADY. Lle nad yw hyn yn wir bellach bydd angen dod â'r CDU i ben.



Gradd o gymhlethdod - gall symud i fyny neu i lawr yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol



Ymarfer ysgol gyfan effeithiol a chynnwys yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cyflwyno addysgu arferol o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion disgyblion unigol. Gellir gofyn am gyngor a chefnogaeth wrth ddatblygu gallu ysgol gyfan gan asiantaethau allanol fel y bo'n briodol.



ADY wedi'i nodi, a CDU a gynhelir gan ysgolion yn ei le. Gellir ceisio cyngor ac arweiniad gan asiantaethau allanol i gynorthwyo ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol. Mewn rhai achosion, gall asiantaethau allanol ymwneud yn uniongyrchol â dysgwyr unigol.



Mae angen CDU a gynhelir gan ALL i gynorthwyo'r ysgol i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu anghenion dysgwyr unigol.

Arfer sy'n canolbwyntio ar y person

Yn ganolog i ymagwedd y Ddeddf sy'n seiliedig ar hawliau, mae'r egwyddor o gyfranogiad – gwranddo ar ddysgwyr gan ystyried eu barn yn ystyrlon. Un ffordd o sicrhau bod dysgwyr a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan mor llawn â phosib mewn penderfyniadau yw mabwysiadu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dull yn seiliedig ar gyfres o werthoedd a rennir a ellir eu defnyddio i gynllunio **gyda** pherson ac **nid ar eu cyfer**. Mae'n broses sy'n galluogi adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen i'r dysgwr gael ei chynnwys yn llawn a chymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Bydd gan y Cydlynnydd ADY rôl ganolog wrth ddatblygu dealltwriaeth athrawon o [egwyddorion arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#). Bydd disgwyl i bob athro/athrawes ddefnyddio'r arfer hon i lywio addysgu a dysgu a chefnogi dysgwyr gyda ADY.

A oes angen dulliau addysgol arbenigol neu wahanol ar ddysgwyr ag ADY?

Nid oes tystiolaeth bod angen addysgeg arbenigol ar ymarferwyr prif ffrwd i sicrhau gwelliant ar gyfer dysgwyr ag ADY. Dadansoddodd yr adolygiad o arferion prif ffrwd effeithiol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND)*, a gynhaliwyd yn 2020 gan yr [Education Endowment Foundation](#)³ waith ymchwil rhyngwladol ac ymgynghorodd ag athrawon ac arbenigwyr yn y maes, gan ddod i'r casgliad y dylai athrawon flaenoriaethu strategaethau cyfarwydd ond grymus. Mae hyn yn golygu deall anghenion disgyblion unigol ac ymgorffori dulliau penodol mewn addysgu arferol, dydd i ddydd, yn yr ystafell ddosbarth a 'bod yn gynhwysol trwy fwriad yn hytrach nag ôl-ystyriaeth'. Yn ddiau, mae angen i rai dysgwyr gael mwy o amser, mwy o ymarfer, mwy o ailadrodd, llai o dasgau ac ati... ond mae'r strategaethau sy'n darparu canlyniadau da yr un fath i bob dysgwr. Mae'r adolygiad yn amlygu pum strategaeth gyffredinol ac iddynt sylfaen dystiolaeth gref sy'n dangos eu bod yn effeithiol wrth helpu'r rheiny ag ADY i ddysgu. Bydd pob athro/athrawes prif ffrwd eisoes yn meddu ar y sgiliau hyn neu gellid eu hychwanegu'n rhwydd. Manylir ar y pum strategaeth isod ac ar y dudalen nesaf:

- sgaffaldio;
- addysgu penodol;
- technoleg;
- gwybyddiaeth a metawybyddiaeth; a
- grwpio hyblyg.

³ Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Prif Ffrwd, Adroddiad Canllaw (2020), Education Endowment Foundation

A yw diagnosis o unrhyw fath yn bwysig i amlygu dulliau addysgegol o gynorthwyo dysgwyr?

O ran y rhan fwyaf o ddysgwyr sydd ag ADY, ni fydd diagnosis yn ddefnyddiol i athro/athrawes, o reidrwydd, wrth geisio amlygu'r union bethau sy'n rhwystro dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae labeli diagnostig yn sicr yn fuddiol gan eu bod yn darparu dealltwriaeth gyffredinol o nodweddion cyflwr. Fe allent hefyd helpu rhai dysgwyr i ddeall pam maen nhw'n profi'r byd mewn ffordd benodol ac fe allent fod yn angenrheidiol, yn enwedig i sicrhau cymorth gan rai gwasanaethau arbenigol. Fodd bynnag, yr hyn sy'n allweddol i sicrhau bod unrhyw ddysgwr ag ADY yn dysgu'n gyflymach yw addysgeg a pha mor fedrus yw'r athro/athrawes wrth ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau penodol i'r dysgwr. O ganlyniad, wrth geisio gwneud penderfyniadau dydd i ddydd ynglŷn ag addysgu, mae diagnosis yn annhebygol o helpu i lywio'r profiadau dysgu personol sydd i'w darparu i ddysgwr ac ni fydd yn rhoi digon o fanylion am y cymorth a'r addasiadau sy'n angenrheidiol i alluogi'r unigolyn hwnnw i ddysgu a ffynnu.

ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG MEWN YSGOLION PRIF FFRWD


Addysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion ag AAAA



Canfu'r adolygiad o dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad canllaw hwn dystiolaeth gref y bydd gwella addysgu o ansawdd uchel i bob disgybl yn gwella deilliannau i ddisgyblion ag AAAA. Dylai athrawon ddatblygu cyfres o'r strategaethau hyn y gallant eu defnyddio'n hyblyg i ymateb i anghenion unigol, a'u defnyddio fel man cychwyn ar gyfer addysgu pob disgybl yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys y rhai hynny ag AAAA.

"Ni ellir tanbwysleisio pwysigrwydd addysgu o ansawdd da. Mae'r Cod Ymarfer AAAA yn datgan yn glir y dylai ysgolion wirio'n rheolaidd mai addysgu o ansawdd uchel, wedi'i wahaniaethu ar gyfer disgyblion unigol, yw'r cam cyntaf i ymateb i ddisgyblion sydd ag AAA neu y gallai fod ganddynt AAA. Ni all ymyriadau a chymorth ychwanegol wneud iawn am ddiffyg addysgu o ansawdd da."

Rachel Rossiter, Pennaeth Cynorthwyl a Chydylynydd AAA mewn ysgol yn Suffolk



Mae'r adnodd hwn yn ategu'r adroddiad canllaw Anghenion Addysgol Arbennig mewn Ysgolion Prif Ffrwd

Mae angen i'r DDdY ar gyfer dysgwr ag ADY gael ei theilwra i oresgyn rhwystr penodol ac adnabyddadwy rhag dysgu. Felly, ni fydd diagnosis yn arwain yn syth at ddealltwriaeth well o'r rhwystr rhag dysgu oherwydd: mae dau ddysgwr â'r un diagnosis yn debygol o fod ag anghenion dysgu gwahanol iawn fel unigolion; ni fydd gan bob dysgwr ag ADY ddiagnosis ffurfiol; efallai y bydd gan ddysgwyr ddiagnosis gwahanol ond anghenion tebyg, a gall diagnosis roi awgrymiadau bras yn unig ar gyfer cymorth cyffredinol.

Meysydd angen eang

Mae ystod eang o anableddau neu anawsterau dysgu, ond gellir eu dosbarthu'n fras yn bedwar maes, fel a ganlyn:

- gwybyddiaeth a dysgu
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol
- synhwyrdd a/neu gorfforol
- cyfathrebu a rhyngweithio

Mae'r Cod yn egluro'r meysydd angen bras hyn fel a ganlyn:

- **Gwybyddiaeth a dysgu** – mae'n bosibl y bydd angen i rai plant a phobl ifanc sy'n dangos nodweddion anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys neu anawsterau dysgu penodol, fel dyslecsia neu ddyspracsia, gael rhaglenni penodol i'w helpu i wneud cynnydd gwybyddol a dysgu. Efallai y bydd gan rai o'r plant a'r bobl ifanc hyn anawsterau synhwyrdd, corfforol ac ymddygiadol cysylltiedig.
- **Ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol** – bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Fe allent fynd i'w cragen neu fod yn ynysig, aflonyddu a tharfu, bod yn orfywiog neu fethu canolbwyntio; efallai na fydd eu sgiliau cymdeithasol wedi datblygu digon; neu efallai byddant yn dangos ymddygiad heriol.
- **Anghenion synhwyrdd a / neu gorfforol** – mae'r maes angen hwn yn cynnwys y sbectrwm eang o anawsterau synhwyrdd, amlsynhwyrdd a chorfforol. Mae'r ystod synhwyrdd yn amrywio o fyddardod neu nam gweledol dwys a pharhaol i lefelau llai o golled, a allai fod dros dro yn unig. Gallai namau corfforol deillio o achosion corfforol, niwrolegol neu fetabolig sy'n gofyn am fynediad i gyfleusterau a chyfarpar addysgol yn unig; gallai eraill arwain at anghenion dysgu a chymdeithasol mwy cymhleth; bydd gan rai plant a phobl ifanc anawsterau amlsynhwyrdd a bydd gan rai anawsterau corfforol cysylltiedig.
- **Cyfathrebu a rhyngweithio** – gallai rhai plant a phobl ifanc brofi anhawster mewn un, sawl un neu bob agwedd ar leferydd, iaith a chyfathrebu. Gallai'r maes angen hwn gynnwys plant a phobl ifanc sydd ag oedi, namau neu anhwylderau lleferydd ac iaith, anawsterau dysgu penodol, fel dyslecsia a dyspracsia, nam ar y clyw a'r rhai hynny sy'n dangos nodweddion o fewn y sbectrwm awtistiaeth; fe allai hefyd gynnwys rhai plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu cymedrol, difrifol neu ddwys. Bydd ystod yr angen yn cynnwys y rhai hynny y mae eu hanawsterau iaith a chyfathrebu'n deillio o nam synhwyrdd neu gorfforol parhaol.

Bydd angen canfyddedig rhai dysgwyr yn perthyn yn glir i un o'r meysydd hyn, ond bydd gan eraill anghenion sy'n rhychwantu dau faes neu fwy, ac efallai na fydd union natur anghenion rhai yn glir o'r dechrau. O ganlyniad, mae'n bwysig cynnal asesiad unigol manwl er mwyn deall y rhwystr rhag dysgu'n iawn. Dylai gwella'r ddarpariaeth ac adolygu ei heffeithiolrwydd wrth sicrhau cynnydd fod yn rhan annatod o asesiad sy'n llywio addysgu a dysgu.

Amlygu rhwystrau rhag dysgu

Ni waeth beth fo'r maes angen bras, y cymhlethdod neu'r math o rwystr rhag dysgu, dylai ysgolion ddefnyddio'r un broses, sef barnu ym mhob achos beth y mae'n rhesymol disgwyl i unigolyn ei gyflawni. Lle y bo'n briodol, gallai'r ysgol ddymuno ymgysylltu ag asiantaethau allanol i gefnogi'r broses o benderfynu a oes gan ddysgwr ADY. Yna, gan ddefnyddio tystiolaeth asesu a gasglwyd dros amser ac o ystod eang o ffynonellau, fe ddylai fod yn bosibl amlygu dysgwyr sy'n gwneud llai o gynnydd nag a ddisgwylir. Mae'r Cod yn disgrifio llai o gynnydd nag a ddisgwylir wrth ddysgu fel a ganlyn:

- **Yn sylweddol arafach na'i gyfoedion wrth ddechrau o'r un llinell,**
- **Nid yw'n cyrraedd neu'n rhagori ar gyfradd cynnydd flaenorol y plentyn neu'r person ifanc; neu,**
- **Nid yw'r bwlch cyrraedd rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'i gyfoedion yn cau, neu mae'r bwlch yn cynyddu, er bod cymorth wedi'i ddarparu i geisio cau'r bwlch hwnnw.**

Gall asiantaethau allanol helpu i gefnogi ysgolion wrth benderfynu a oes gan unigolyn ADY a phennu'r DDdY sy'n ofynnol mewn sawl ffordd. Gallant:

- gynnig cyngor a chymorth gyda strategaethau;
- helpu i ddarparu mwy o wybodaeth;
- cynnal asesiadau a/neu arsylwadau i gasglu mwy o wybodaeth am anghenion unigolyn; ac
- awgrymu ymyriadau posibl.

Bydd y Cydlynnydd ADY yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth gysylltu ag asiantaethau allanol, lle y bo'n briodol, i geisio cyngor ac arweiniad ychwanegol ynglŷn ag effeithiolrwydd prosesau mewnol yr ysgol ar gyfer amlygu ADY yn gywir, yn ogystal â phenderfynu ar y strategaethau neu'r ymyriadau perthnasol wedi'u seilio ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag dysgu.



Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Bydd yr adran hon o ddiddordeb i uwch arweinwyr a Chydlynwyr ADY gan ei fod yn darparu gwybodaeth am y ddyletswydd newydd o sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol. Bydd o ddiddordeb arbennig i Gydlynwyr ADY gan y bydd ganddynt gyfrifoldeb dros sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cwrdd ag anghenion pob dysgwr gyda ADY yn yr ysgol.

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

Mae darpariaeth sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael fel arfer mewn ysgol prif ffrwd, neu sy'n wahanol iddi, yn cael ei hystyried yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY). Bydd DDdY, wrth gwrs, yn welliant ar yr hyn sydd ar gael trwy addysgu ansawdd uchel ac arferol.

Bydd angen i effaith y DDdY gael ei monitro gan y Cydlynnydd ADY o ran pa mor effeithiol y bu wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau i ddysgu, ond hefyd, sut mae hyn wedi helpu'r unigolyn i ddysgu'n gyflymach ar draws y cwricwlwm.

Pa DDdY y gellid disgwyl yn rhesymol iddi fod ar gael mewn ysgol brif ffrwd?

Mae'n rhesymol disgwyl i ysgol ddarparu strategaethau penodol ac ymyriadau neu gefnogaeth a arweinir gan oedolyn i fynd i'r afael â rhwystrau nodweddiadol rhag dysgu. Bydd y DDdY a ddarperir gan ysgol yn unigryw, gan ei bod yn gyd-destunol ac yn adlewyrchu anghenion ei chymuned ei hun. Yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol, bydd y sbardun i wella DDdY yn wahanol i bob ysgol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys newid i garfanau presennol neu ddyfodol yr ysgol, yr angen i fynd i'r afael â thanberfformiad gwahanol grwpiau DDdY, cael gafael ar arbenigedd mewn gwahanol ffyrdd neu benderfyniad i edrych o'r newydd ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. O ganlyniad, rôl y Cydlynnydd ADY, ar y cyd â'r uwch dîm arweinyddiaeth, yw penderfynu pa ddarpariaeth addysgol y mae angen iddi fod ar waith i gynorthwyo eu dysgwyr sydd ag ADY. Lle mae ysgol yn ystyried yr angen i gynyddu ei gallu i ddarparu DDdY i gwrdd â rhwystrau nodweddiadol i ddysgu, bydd ganddo fynediad at ystod o gymorth arbenigol trwy Wasanaeth Cynhwysiant yr awdurdod lleol a'i bartneriaid ehangach, gan gynnwys gweithwyr ieuchyd proffesiynol y GIG.

Dylai pob ysgol ddisgwyl, wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf ALNET a dilyn ei hegwyddor sylfaenol o addysg gynhwysol, cymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth i fynd i'r afael â rhwystrau nodweddiadol rhag dysgu.

Mae'r tabl drosodd yn darparu trosolwg o'r rhwystrau iddysgu a welir yn nodweddiadol mewn ysgolion prif ffrwd gyda'r DDdY cyfatebol yr ystyrir yn rhesymol i ysgolion ei darparu. **Y dwyster, hyd a'r ffaith bod angen y ddarpariaeth yn barhaus i fynd i'r afael â rhwystr penodol i ddysgu sy'n ei gymhwyso fel DDdY.**

Fodd bynnag, bydd penderfynu ar DDdY i'w ddarparu yn broses ailadroddol sy'n cael ei gyrru gan gyd-destun sy'n casglu tystiolaeth asesu dros amser, gan ddefnyddio ystod o wybodaeth, yn ansoddol ac yn feintiol, i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

Rhwystrau rhag dysgu	Lle mae dysgwyr yn cael anhawster sylweddol mewn dysgu a / neu anabledd, byddai'r ystod ganlynol o ALP yn cael ei hystyried yn rhesymol i ysgolion prif ffrwd ei darparu
Cyfnod canolbwyntio cyfyngedig o gymharu â cherrig milltir sy'n briodol yn ddatblygiadol	- Ymyriadau y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n darparu cefnogaeth estynedig wedi'i thargedu i ddatblygu sylw a gwranddo drwy ddefnydd barhaus o: - Amser penodol i symud neu gyfnodau canolbwyntio byr, mynych - Amseryddion, fel bod y dysgwyr yn gwybod bod rhaid iddo ganolbwyntio am gyfnod cysurus o amser yn unig - Darparu gwybodaeth mewn talpiau llai a/neu ddefnyddio iaith wedi'i haddasu - Delweddau i'w helpu i ganolbwyntio - Cyn-addysgu/addysgu a gor-ddysgu geirfa sy'n benodol i'r pwnc gan ddefnyddio mapiau meddwl a mapiau geiriau
Anawsterau trefnu	- Rhaglenni wedi'u targedu estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n datblygu sgiliau dilyniannu a threfnu pan fydd anawsterau penodol yn parhau i fod yn amlwg. - Cymorth parhaus estynedig i ddatblygu sgiliau trefnu personol i ymateb i sgiliau amserlennu/ rheoli cyfarpar/ annibyniaeth pan fydd gwahaniaeth sylweddol yn y gallu i gwblhau'r tasgau hyn ar lefel sy'n briodol i oedran
Anawsterau cof	Cymorth parhaus estynedig i or-ddysgu cynnwys pwnc i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anawsterau cof gweithredol/cof tymor byr/cof clywedol i ddatblygu sgiliau meistrolï.
Anawsterau deall iaith lafar	- Darparu dull ychwanegol o gyfathrebu e.e. defnyddio TGCh, cyfathrebu trwy symbolau (e.e. Makaton, PECS), iaith Arwyddion Prydain (BSL), SSE os a phryd y cynghorir gan asiantaethau allanol - Ymyriadau targedig estynedig ar gyfer datblygu iaith y cytunwyd arnynt yn lleol sy'n cefnogi dealltwriaeth o iaith - Cyn-addysgu/addysgu a gor-ddysgu dwys o eirfa estynedig wedi'i dargedu sy'n benodol i'r pwnc gan ddefnyddio mapiau meddwl a mapiau geiriau - Gweithredu rhaglen iaith estynedig a arweinir gan asiantaethau - Rhoi mwy o sylw i ddefnyddio holi priodol sy'n cyfateb i lefel dealltwriaeth y plentyn
Anawsterau ag iaith lafar a chyfathrebu'r hyn maen nhw ei angen/eisiau, mynegi eu meddyliau a'u syniadau	- Mae gan y dysgwr raglen estynedig a phenodol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu trwy'r dull sy'n well ganddo, fel yr argymhellwyd gan asiantaethau allanol. - Defnydd cyson ac estynedig o strategaethau i ddatblygu hyder wrth siarad â dysgwyr gydag anawsterau dod i hyd i eiriau - Sicrhau "amser meddwl" parhaus ac estynedig wrth ymateb i gwestiynau - Darparu dull ychwanegol o gyfathrebu, e.e. defnyddio TGCh, BSL, SSE, cyfathrebu trwy symbolau, os a phan fydd asiantaethau allanol yn cynghori hynny

Anawsterau wrth gynhyrchu seiniau lleferydd clir	• Gweithredu rhaglenni lleferydd neu iaith estynedig a luniwyd gan asiantaethau allanol • Ymyriadau unigol estynedig o ymwybyddiaeth o seiniau, ffonoleg a sillafau • Sicrhau “amser meddwl” estynedig a pharhaus wrth ymateb i gwestiynau
Anawsterau parhaus wrth gaffael sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol	• Gweithredu rhaglenni estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol a luniwyd i gefnogi caffael sgiliau llythrennedd • Gweithredu rhaglenni estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol a luniwyd i gefnogi caffael sgiliau rhifedd
Sgiliau echddygol manwl gan gynnwys trin/manipwleiddio teclynnau/cyfarpar	• Rhaglenni wedi’u targedu y cytunwyd arnynt yn lleol sy’n datblygu sgiliau llawysgrifen lyfn a/neu brosesu geiriau • Rhaglenni strwythuredig y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer sgiliau echddygol manwl a bras
Anawsterau echddygol bras	• Rhaglenni strwythuredig estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol ar gyfer sgiliau echddygol bras
Amhariad ar fynediad i’r amgylchedd dysgu	• Gwirio cyfarpar arbenigol yn ddyddiol i alluogi mynediad at y cwricwlwm bob amser • Addasiadau penodol ac unigol i amgylchedd yr ysgol • Addasu cyfarpar yn arbennig i gael at agweddau penodol ar y cwricwlwm. • Gweithredu rhaglenni ymyrraeth estynedig penodol a luniwyd gan asiantaethau allanol i hwyluso mynediad i’r amgylchedd dysgu. • Defnyddio seddi/cyfarpar arbenigol • Newid osgo a seibiannau symud penodol/rheolaidd • Defnyddio cyfarpar TG penodol/technoleg gynorthwyol sy’n benodol i’r dysgwr i alluogi mynediad at y cwricwlwm • Argaeledd deunyddiau llais byw • Cymhorthion golwg gwan • Addasiadau sy’n benodol i’r dysgwr i ddeunyddiau ysgrifenedig • Mynediad at aelodau staff sydd wedi cael hyfforddiant ar addasu/dulliau cyffyrddol • Defnyddio dulliau cinetig a chyffyrddol o ddysgu, a gymerir ar gyfer dysgu pwrpasol • Mynediad at aelodau staff cymorth sydd wedi cael hyfforddiant BSL/ SSE/ ymwybyddiaeth o fyddardod • Rhaglen symudedd/cyfarwyddo a ddarperir gan arbenigwyr allanol

Anawsterau wrth ddeall neu ddefnyddio rheolau cyfathrebu cymdeithasol	• Cefnogaeth estynedig wedi'i thargeddu i gyflwyno pecynnau ymyrraeth a gydnabyddir yn lleol sy'n cynnwys: - Defnyddio cardiau trafod a chiwiau gweledol sy'n benodol i'r dysgwr. - Gwell straeon cymdeithasol ar gyfer cefnogi datblygu sgiliau cymdeithasol penodol - Gwell straeon cymdeithasol i dargeddu sgiliau penodol i ddatblygu perthnasoedd. - Defnydd pwrpasol o stribedi comig - Datblygu dealltwriaeth o emosiynau/sgiliau cymdeithasol
Anhawster gyda chyfathrebu cymdeithasol a datblygu perthnasoedd	• Amser pwrpasol ac estynedig gydag oedolyn penodedig sydd ar gael yn emosiynol sydd wedi cael hyfforddiant priodol a gymeradwywyd yn lleol • Ystod o gyfleoedd pwrpasol estynedig ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol e.e. ymyriadau targed gan gyfoedion • Dulliau adferol estynedig sy'n benodol i'r dysgwr • Rhaglen estynedig sy'n benodol i'r dysgwr i ddatblygu sgiliau meddwl a sgiliau rhyngweithio cymdeithasol.
Anawsterau gyda Phrosesu Synhwyrdd a/neu reoleiddio synhwyrdd	• Cynllun synhwyrdd estynedig y cytunwyd arno yn lleol i gefnogi ymgysylltiad, a arweinir gan asiantaethau allanol • Cymorth estynedig wedi'i dargeddu ar gyfer proffil synhwyrdd y dysgwr
Gorbryder	• Cymorth mentora penodol ac estynedig, gan gynnwys oedolion neu gyfoedion • Amserlen weledol i'w defnyddio'n estynedig yn y lleoliad/yn yr ysgol wedi'i theilwra i broffil unigol y dysgwr • Cefnogaeth bwrpasol estynedig gan oedolyn sydd ar gael yn emosiynol sydd wedi cael hyfforddiant lleol priodol • Cymorth estynedig peodol yn ystod amser di-strwythur
Camreoleiddio emosiynol	• Cefnogaeth bwrpasol estynedig gan oedolyn sydd ar gael yn emosiynol sydd wedi cael hyfforddiant lleol priodol • Rhaglenni estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol i ddatblygu llythrennedd emosiynol. • Defnyddio ymyriadau estynedig yn seiliedig ar berthnasoedd y cytunwyd arnynt yn lleol. • Gweithredu straeon cymdeithasol pwrpasol i amlygu sbardunau a dulliau o'u goresgyn • Rhaglenni estynedig a phenodol i leihau straen • Strategaethau tawelu a hunanreoli estynedig sy'n benodol i'r dysgwr • Ymyriadau therapiwtig estynedig y cytunwyd arnynt yn lleol.

Cynorthwyo dysgwyr y mae arnynt angen darpariaeth fwy cymhleth i fodloni eu hanghenion mewn ysgolion prif ffrwd

Pan fydd dysgwr yn parhau i gael anhawster dysgu a gwneud cynnydd, er gwaethaf darpariaeth gyffredinol o ansawdd uchel a'r DDdY a ddarperir trwy CDU yr ysgol, fe allai'r ysgol gredu bod anghenion y dysgwr yn fwy difrifol a chymhleth ac nad yw'r DDdY a ddarparwyd ganddi'n ddigonol mwyach. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall yr ysgol gyfeirio'r achos at yr awdurdod lleol, a fydd yn defnyddio cyfres o egwyddorion i benderfynu p'un a yw'n rhesymol i'r ysgol barhau i sicrhau'r DDdY. Bydd yr egwyddorion hyn yn ymwneud â'r canlynol:

- graddau a hyd y cyngor gan arbenigwyr allanol y mae'n debygol y bydd yn afresymol i'r ysgol ei sicrhau;
- y cyfarpar y mae'n debygol y bydd yn afresymol i'r ysgol ei ddarparu; a
- dwyster a hyd y cymorth a graddau ymgysylltiad mewnol staff yr ysgol y mae'n debygol y bydd yn afresymol i'r ysgol eu darparu.

Pan fydd ysgol o'r farn bod angen cynyddu ei gallu i fodloni anghenion dysgwyr ag ADY cymhleth, gall cymorth ac arweiniad gael eu darparu gan staff cynhwysiant arbenigol yr awdurdod lleol a, lle y bo'n briodol, gweithwyr iechyd proffesiynol arbenigol y GIG.